# Adroddiad Gwella Blynyddol

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Cyhoeddwyd: Mehefin 2013
Cyfeirnod y ddogfen: 268A2013



# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am gynnal archwiliadau blynyddol o bron i £5.5 biliwn a drosglwyddir gan Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol ar ffurf grantiau cyffredinol a phenodol. Yn ei thro, mae llywodraeth leol yn codi £2.1 biliwn pellach drwy'r dreth gyngor ac ardrethi busnes.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gwneud i arian cyhoeddus gyfrif, drwy hybu gwelliannau, fel y gall pobl Cymru gael budd o wasanaethau cyhoeddus atebol a reolir yn dda sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn ymrwymedig i nodi a lledaenu arfer da ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Steve Barry a Samantha Spruce o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 6

Mae'r Cyngor yn sicrhau gwelliant mewn sawl maes ond mae'n wynebu heriau penodol ym maes gwasanaethau plant, ac mae'n datblygu ei drefniadau perfformiad ar adeg o newid sylweddol 7

Er bod y Cyngor wedi gwella mewn sawl maes, mae heriau'n parhau, yn cynnwys mynd i'r afael â'r pryderon difrifol a nodwyd ym maes gwasanaethau plant 7

Mae'r Cyngor yn cymryd camau i wella ei ddulliau o reoli perfformiad, ond heb ddulliau da o fesur effaith i ddefnyddwyr gwasanaethau, mae'n anodd pennu a yw dyheadau'n cael eu bodloni 17

Er bod trefniadau'r Cyngor i gefnogi gwelliant yn gadarn at ei gilydd, mae'n wynebu rhai penderfyniadau ariannol anodd wrth wneud newidiadau sylweddol i'w dîm rheoli corfforaethol 23

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 28

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Gastell-nedd Port Talbot a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot 29

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig 31

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot 34

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Gan ddefnyddio gwaith arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, a'i waith ei hun, mae'r adroddiad hwn yn rhoi darlun o welliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Rhennir yr adroddiad hwn yn dair prif adran, sy'n cwmpasu'r ffordd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (y Cyngor) yn darparu ac yn gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas â 2011-12, a'r ffordd y mae'n cynllunio gwelliant ar gyfer 2012-13.

2 Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad canlynol: mae'r Cyngor yn sicrhau gwelliant mewn sawl maes ond mae'n wynebu heriau penodol ym maes gwasanaethau plant, ac mae'n datblygu ei drefniadau perfformiad ar adeg o newid sylweddol.

3 Er bod y Cyngor wedi gwella mewn sawl maes, mae heriau'n parhau, yn cynnwys mynd i'r afael â'r pryderon difrifol a nodwyd ym maes gwasanaethau plant:

- mae newidiadau yn y trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau i bobl hŷn ac oedolion agored i niwed yn dechrau sicrhau gwelliant;
- mae'r Cyngor wedi parhau i leihau'r ganran o ddisgyblion sy'n gadael ysgol heb gymhwyster cymeradwy ac yn parhau i wella adeiladau ysgol, eto mae lefelau presenoldeb yn is na'r cyfartaledd yn y sector cynradd;
- ym mis Tachwedd 2012, nododd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) bryderon difrifol ym maes gwasanaethau plant, a pharodd hyn i'r Cyngor sefydlu trefniadau rheoli diwygiedig sydd â'r nod o fynd i'r afael â'r pryderon;
- er bod perfformiad wedi gostwng, mae'r Cyngor yn cyflawni'n dda ar ddargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi ond roedd lefel yr ailgylchu a gyflawnwyd yr isaf yng Nghymru ac mae'n gwneud y Cyngor yn agored i'r perygl o wynebu cosbau ariannol pe bai'n methu â chyrraedd targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-13;
- mae'r Cyngor wedi parhau i ganolbwyntio ar adfywio fel blaenoriaeth a llwyddodd i sicrhau cyllid ar gyfer ariannu ei raglen o welliannau;
- roedd mwy o bobl yn cymryd rhan mewn mentrau cyflogaeth a noddir gan y Cyngor ond cafwyd llai o geisiadau am gymorth gan fusnesau;
- ers trosglwyddo ei stoc tai i Cartrefi CNPT, mae safon cartrefi tenantiaid wedi gwella a bu cynnydd sylweddol tuag at ennill Safon Ansawdd Tai Cymru;
- mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer gweinyddu budd-dal tai yn cefnogi gwelliant, a dylai'r prosesau cyfredol sicrhau bod taliadau prydlon a chywir yn cael eu gwneud i'r bobl ddylai eu cael; a

- bu oedi yn y broses o baratoi a chytuno ar *Gynllun Iaith Gymraeg* diwygiedig sydd wedi golygu mai araf fu'r cynnydd o ran gwella ei wefan gorfforaethol a chynllunio gweithlu dwyieithog.

4 Gwelsom hefyd bod y Cyngor yn cymryd camau i wella ei ddulliau o reoli perfformiad, ond heb ddulliau da o fesur effaith i ddefnyddwyr gwasanaethau, mae'n anodd pennu a yw dyheadau'n cael eu bodloni:

- mae potensial i'r Cyngor wella ei drefniadau adrodd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gynnwys a chyhoeddi ei Adroddiad Perfformiad;
- roedd datganiadau ariannol y Cyngor yn foddhaol ar y cyfan;
- mae'r Cyngor yn adrodd y dystiolaeth sydd ei hangen i arddangos gwelliant, ac mae'n cydnabod yr angen i wneud gwaith pellach ar ddatblygu dull corfforaethol o reoli perfformiad i gryfhau cysylltiadau rhwng gweithgarwch gwasanaethau a chyflawni amcanion gwella;
- yn absenoldeb cerrig milltir perfformiad eglur ar gyfer rhai agweddau ar wasanaethau, mae'n anodd sefydlu a yw'r dyheadau ar gyfer gwella yn cael eu bodloni; ac
- nid yw effaith gwaith craffu ar wasanaethau a chydweithio i sicrhau gwelliant yn cael ei hesbonio'n eglur bob amser.

5 Yn olaf, mae'r adroddiad hwn yn nodi ein barn ynghylch pa mor dda y mae'r Cyngor yn cynllunio ac yn gwneud trefniadau i gefnogi gwelliannau. Daethom i'r casgliad canlynol: er bod trefniadau'r Cyngor i gefnogi gwelliant yn gadarn at ei gilydd, mae'n wynebu rhai penderfyniadau ariannol anodd wrth wneud newidiadau sylweddol i'w dîm rheoli corfforaethol:

- mae'r Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol;
- mae'r Cyngor yn parhau i reoli ei heriau ariannol yn effeithiol, ond mae cynghorwyr yn wynebu penderfyniadau anodd wrth fynd i'r afael â'r bwlch ariannol a ragwelir dros y pedair blynedd nesaf;
- tra'i fod yng nghanol cyfnod o newid sylweddol, mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd cymysg wrth fynd i'r afael â'n cynigion blaenorol ac mae wedi gorfod blaenoriaethu gweithgarwch yng nghyd-destun llai o adnoddau ariannol ac adnoddau dynol; ac
- mae'r Cyngor yn ymdrin â'r materion ym maes gwasanaethau plant a arweiniodd at y protocol pryderon difrifol yn cael ei roi ar waith gan AGGCC.

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

6 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda chymorth arolygiaethau yng Nghymru, sef Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni a sut mae'n gwneud hynny. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf, gan ddefnyddio hunanasesiad y Cyngor ei hun.

7 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.

8 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod;
- gwneud cynigion ar gyfer gwella – os byddwn yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

9 Nid ydym yn gwneud unrhyw argymhellion ffurfiol yn yr adroddiad hwn, a gan fod y Cyngor yn ymdrin â'r meysydd lle mae potensial i wella yn ein barn ni, nid ydym yn gwneud unrhyw argymhellion newydd ar gyfer gwelliant. Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24, Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

## Mae'r Cyngor yn sicrhau gwelliant mewn sawl maes ond mae'n wynebu heriau penodol ym maes gwasanaethau plant, ac mae'n datblygu ei berfformiad ar adeg o newid sylweddol

### Er bod y Cyngor wedi gwella mewn sawl maes, mae heriau'n parhau, yn cynnwys mynd i'r afael â'r pryderon difrifol a nodwyd ym maes gwasanaethau plant

10 I gefnogi ein gwerthusiadau, rydym wedi defnyddio hunanasesiad y Cyngor ei hun o'i berfformiad yn ei *Adolygiad Blynyddol o'r Adroddiad Perfformiad ar gyfer 2011-12* (Adroddiad Perfformiad). Yn ogystal, rydym wedi cyfeirio at faterion allweddol o adroddiadau diweddar gan Estyn ac AGGCC, a chanfyddiadau ein profion ein hunain o sampl o feysydd gwasanaeth y Cyngor, gan gynnwys trefniadau rheoli perfformiad a fabwysiadwyd er mwyn rheoli:

- gwireddu addewidion y Llythyr o Gynnig at denantiaid Cartrefi CNPT ar ôl trosglwyddo'r stoc tai;
- canolfannau hamdden a reolir gan Celtic Trust;
- grantiau ar gyfer cyfleusterau i bobl anabl; a
- throsglwyddo datblygiad a rheolaeth cartrefi preswyl i Grŵp Gwalia.

11 Yn ei asesiad cyffredinol o'i berfformiad ei hun yn ystod 2011-12, nododd y Cyngor ei fod wedi perfformio'n gadarn, gan gyflawni'r rhan fwyaf o'i brif gerrig milltir ar draws y saith blaenoriaeth ar gyfer gwella a chan ddangos perfformiad gwell mewn nifer o wasanaethau.

### Mae newidiadau yn y trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau i bobl hŷn ac oedolion agored i niwed yn dechrau sicrhau gwelliant

12 Mae gan y Cyngor amcan lefel uchel i wella preifatrwydd ac urddas pobl hŷn sy'n byw yng nghartrefi gofal preswyl y Cyngor. Er mwyn cefnogi hyn, cwblhaodd y Cyngor ymarfer caffael llwyddiannus i ddod o hyd i bartner ar gyfer cynllunio, adeiladu, ariannu a gweithredu pedwar cartref gofal newydd ar gyfer pobl hŷn ac oedolion sy'n agored i niwed yn raddol dros y 25 mlynedd nesaf. Bydd hefyd yn parhau i weithredu a chynnal cartref gofal Dan y Bryn. Cafodd preswylwyr a staff eu trosglwyddo i Grŵp Gwalia ar 1 Ebrill 2012. Bwriad y buddsoddiad newydd sylweddol yw sicrhau arbedion effeithlonrwydd drwy alluogi i'r ddarpariaeth gael ei rhesymoli fel bod manteision gwirioneddol i ddefnyddwyr gwasanaethau o ran ansawdd y cyfleusterau a ddarperir yn ogystal â manteision ariannol i'r Cyngor.

13 Nid oedd y Cyngor wedi cyhoeddi mesurau perfformiad yn ymwneud â datblygiad a gweithrediad cartrefi gofal adeg ei adroddiad blynyddol 2011-12. Mae dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer gofal preswyl, gofal seibiant a'r contract tai â chymorth a ddyfarnwyd i Grŵp Gwalia ym mis Chwefror 2012 yn faes sy'n datblygu wrth i'r contract fynd rhagddo ac wrth i'r trefniadau rheoli perfformiad ennill eu plwyf. Ceir fframwaith llywodraethu eglur gyda nifer o ffrydiau gwaith, gydag un ohonynt yn canolbwyntio ar ddatblygu trefniadau rheoli perfformiad rhwng Grŵp Gwalia a'r Cyngor.

14 Mae'r grŵp ffrwd waith yn mireinio cyfres o 54 dangosydd perfformiad, gan adrodd arnynt mewn manylder amrywiol i drawstoriad o gynulleidfaoedd Grŵp Gwalia a'r Cyngor bob mis, bob chwarter a bob blwyddyn.

15 Datblygwyd y mesurau perfformiad er mwyn monitro perfformiad y contractwr wrth gyflawni ei gyfrifoldebau o dan y contract. Mae'r systemau'n cynnwys cyflwyno gwybodaeth reoli gan Grŵp Gwalia, cyfarfodydd adolygu perfformiad cylchol ac ymweliadau monitro, y gellid eu gwella drwy gynnwys asesiad o farn defnyddwyr gwasanaethau ynghylch yr effaith ar ansawdd y gofal/llety ac ati, ac ymrwymiad Grŵp Gwalia i fuddsoddi yn y gwasanaeth.

16 Mae'r Cyngor yn ailgynllunio ei wasanaeth Gofal Cartref y tu allan i oriau i'w wneud yn fwy hyblyg a chost-effeithiol. Cyhoeddodd dendr ar gyfer prynu system electronig i fonitro galwadau, i ddileu'r angen i gyflawni nifer o dasgau gweinyddol ar bapur, a dechreuodd ar y gwaith o safoni telerau ac amodau contractau gwaith staff Gofal Cartref. Nid yw Adroddiad Perfformiad y Cyngor yn egluro'r gwelliant a ragwelir yn y canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau o ganlyniad i gyflwyno gwasanaeth mwy hyblyg a system i fonitro galwadau'n electronig, ond mae'n rhoi sicrwydd bod y Cyngor yn datblygu nifer o fesurau i allu asesu ei berfformiad yn well.

17 Mae'r Cyngor, gyda'i bartneriaid, wedi gwella cyfradd y bobl hŷn (65 oed a hŷn) a gynorthwywyd yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth yn ystod 2011-12 i 95.07 o gymharu â chyfartaledd Cymru o 78.60; gan sicrhau bod Castell-nedd Port Talbot ymhlith y 25 y cant sy'n perfformio orau drwy Gymru.

18 Mae'r Cyngor yn arwain gwaith ar integreiddio gwasanaethau gofal canolraddol a ddarperir gan y Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Mae gwasanaethau gofal canolraddol yn cynnwys y Tîm Asesu a Galluogi Gofal Cartref (HEAT) a ddarperir gan y Cyngor a Gwasanaeth Gofal Integredig Canolraddol y Gymuned a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Pennir data llinell sylfaen ar gyfer mesurau newydd yn ystod 2012-13 i arddangos gwelliannau yn y gwasanaethau a'r gwersi a ddysgwyd. Bydd y gwaith integreiddio yn cynyddu capasiti drwy adleoli staff yn fwy effeithlon ac mae gobaith felly y bydd yn lleihau'r angen i fynd i ysbyty.

19 Roedd perfformiad cymharol y Cyngor yn 2011-12 o ran y gyfradd o achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed a hŷn yn y 25 y cant isaf o gymharu â Chymru gyfan. Fodd bynnag, cafwyd gwelliant amlwg ers y flwyddyn flaenorol o 14.83 fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed a hŷn yn 2010-11 i 9.81 fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed a hŷn yn 2011-12. Cyfartaledd Cymru ar gyfer 2011-12 oedd 5.03 fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed a hŷn. Mae'r data sydd ar gael ar gyfer 2012-13 yn dangos gwelliant parhaus gan y Cyngor o gymharu â chyfartaleddau Cymru.

20 Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi ychwanegu 63 o bobl at nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth Teleofal, gan helpu'r bobl hyn i aros yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hirach.

21 Mae'r Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth i foderneiddio gwasanaethau anabledd dysgu a datblygu opsiynau cymorth yn y gymuned. Mae'r flaenoriaeth hon yn cyd-fynd â disgwyliadau'r agenda strategol genedlaethol.

22 Mae'r Cyngor wedi dechrau gweithio ar ei gynllun, *Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion (TASC)* gan gytuno mai gwasanaethau anabledd dysgu fydd prif bwyslais y prosiectau newydd a roddir ar waith yn ystod dwy flynedd gyntaf y rhaglen. Mae adroddiad gan AGGCC dyddiedig 31 Hydref 2012 wedi dod i'r casgliadau canlynol mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol i oedolion.

23 'Mae'r rhaglen ar gyfer gweddnewid y gwasanaethau i bobl hŷn wedi parhau i gael ei rhoi ar waith. Mae hyn wedi cynnwys trosglwyddo cartrefi gofal preswyl y Cyngor ar gyfer bobl hŷn yn llwyddiannus i Grŵp Gwalia, a newidiadau i'r gwasanaeth gofal cartref. Cytunwyd ar fodel gwasanaethau gofal canolraddol gyda'r bwrdd iechyd ac mae wrthi'n cael ei roi ar waith. Cyfunwyd rheolaeth y gwasanaeth ail-alluogi a galluogi ac asesu gofal cartref yn ystod y cam cyntaf. Mae hyn yn cynnig mwy o gadernid ac yn gwella cysondeb.

24 Sefydlwyd Menter Gydweithredol Ranbarthol Gwasanaethau Cymdeithasol Bae'r Gorllewin er mwyn sicrhau y gall y tri chyngor sy'n cymryd rhan, sef Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wella gwasanaethau a darparu effeithlonrwydd trwy waith integredig a chydweithredol. Mae angen rhoi sylw parhaus i berfformiad o ran oedi wrth drosglwyddo gofal a chyfran y bobl hŷn sydd mewn gofal preswyl.

25 Mae Adroddiad y Cyfarwyddwr yn rhoi disgrifiad cynhwysfawr a chywir o berfformiad y cyngor yn y gwasanaethau i oedolion ac yn adlewyrchu tystiolaeth a ddarparwyd i AGGCC yn eglur.'

## Mae'r Cyngor wedi parhau i leihau'r ganran o ddisgyblion sy'n gadael ysgol heb gymhwyster cymeradwy ac yn parhau i wella adeiladau ysgol, eto mae lefelau presenoldeb yn is na'r cyfartaledd yn y sector cynradd

26 Y Cyngor yw'r awdurdod arweiniol yn *YMGYSYLLTU*, prosiect Cydgyfeirio blaenoriaeth 1 yn Ne-orllewin Cymru, sy'n cael ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Diben y prosiect yw ymgysylltu, ail-ymgysylltu, ysbrydoli ac annog pobl ifanc rhwng 14 a 19 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) neu sydd mewn perygl o ddod yn NEET. Mae'r prosiect yn cynnwys Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion a chwe choleg. Yn ei Adroddiad Perfformiad, dim ond rhoi sylw i berfformiad y prosiect *YMGYSYLLTU* yn 2011-12 wnaeth y Cyngor. Ni aeth ati i gymharu a chyferbynnu perfformiad â'r flwyddyn flaenorol. Byddai cymhariaeth o'r fath wedi dangos bod y Cyngor wedi cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n cael eu cefnogi gan y prosiect yn sylweddol.

27 Mae'r wybodaeth gymharol isod yn dod o Adroddiad Perfformiad 2010-11. Yn ystod 2011-12, cefnogodd y prosiect *YMGYSYLLTU* 1,031 o gyfranogwyr o gymharu â 658 yn ystod 2010-11 (nodwyd bod 908 mewn perygl o fod yn NEET), ac o'r rhain:

- roedd 410 wedi ennill cymhwyster o gymharu â 316 yn 2010-11;
- cafodd 221 o gyfranogwyr ganlyniadau cadarnhaol eraill o gymharu â 100 yn 2010-11; a
- chytunwyd ar 28 o leoliadau gwaith â chefnogaeth ac estynedig gyda chyflogwyr fel yn 2010-11, ac aeth 200 o gyfranogwyr ymlaen i ddysgu pellach o gymharu â 114 yn 2010-11.

28 Mae'r Cyngor wedi parhau i leihau canran y disgyblion sy'n gadael ysgol heb gymhwyster cymeradwy.

29 Mae'r Adroddiad Perfformiad yn cyfeirio at sawl argymhelliad a threfniadau newydd i sicrhau bod ysgolion yn addas i'r diben, a'u bod yn gallu rhoi profiadau addysgol o safon uchel i bob disgybl ar draws y sector cynradd ac uwchradd. Llwyddodd y Cyngor i sicrhau arian 50 y cant ar gyfer rhaglen gyfalaf gwerth £93 miliwn i gefnogi'r amcan hwn. Fodd bynnag, nid yw'r Adroddiad Perfformiad bob amser yn eglur ynglŷn â sut y mae'r cynlluniau ar gyfer yr holl ysgolion hynny a glustnodwyd ar gyfer newid wedi symud yn eu blaen ers 2010-11. Mae gwybodaeth a gyflwynodd y Cyngor wedyn yn dangos cynnydd yn y rhaglen, gyda chyfleusterau newydd yn cael eu cwblhau yn Nŵr y Felin a phrosiectau eraill sy'n datblygu.

30 Mae cyfraddau presenoldeb yn y sector cynradd islaw cyfartaledd Cymru ac wedi bod yn chwartel isaf ers 2010-11. Gostyngodd y perfformiad yn 2010-11 i 92.2 y cant ac mae wedi aros yn eithaf sefydlog gan ddangos mymryn o welliant, i 92.5 y cant yn 2011-12 o gymharu â chyfartaledd Cymru o 93.3 y cant. Roedd lefelau presenoldeb y sector uwchradd yn 91.9 y cant yn 2011-12, ac yn uwch na chyfartaledd Cymru o 91.4 y cant a pherfformiad y flwyddyn flaenorol o 91.7 y cant. Er bod y Cyngor yn parhau i berfformio'n well na'i gymheiriaid yng Nghyfnod Allweddol 4, mae'n parhau i dangyflawni yng Nghyfnodau Allweddol 1 a 3 o gymharu ag eraill. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen gweithredu i fynd i'r afael â'r materion hyn.

## Ym mis Tachwedd 2012 nododd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) bryderon difrifol ym maes gwasanaethau plant, a pharodd hyn i'r Cyngor sefydlu trefniadau rheoli diwygiedig i geisio mynd i'r afael â'r pryderon

31 Nododd *Adroddiad AGGCC ar yr Adolygiad o Wasanaethau Gofal Cymdeithasol i Blant yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot*[1] ym mis Tachwedd 2012 bryderon difrifol yn nhrefniadau rheoli a gweithredu gwasanaethau plant – gan arwain at weithredu'r protocol pryderon

1 http://cymru.gov.uk/cssiwsubsite/newcssiw/publications/lareviews/20112/neath/?skip=1&lang=cy)

difrifol. Nid oedd y rhaglen drawsnewid a moderneiddio ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol plant, sydd wedi bod yn flaenoriaeth i Gastell-nedd Port Talbot, wedi cyflawni'r gwelliannau angenrheidiol. Roedd y model 'systemau' o ddarparu gwasanaethau a gyflwynwyd ar draws y gwasanaethau plant yn 2011 wedi arwain at ymarfer anghyson, ac anniogel mewn rhai achosion.

32 Mae'r protocol pryderon difrifol yn arwain at sylw parhaus gan AGGCC. Mewn ymateb, mae'r Cyngor yn rhoi cynllun gwella strategol ar waith sy'n cael ei fonitro'n rheolaidd. Bydd AGGCC yn adrodd yn ddiweddarach yn y flwyddyn ac yn asesu a yw'r Cyngor wedi gwneud cynnydd digonol wrth fynd i'r afael â'r materion.

## Er bod perfformiad wedi gostwng, mae'r Cyngor yn cyflawni'n dda ar ddargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi ond roedd lefel yr ailgylchu a gyflawnwyd yr isaf yng Nghymru ac mae'n gwneud y Cyngor yn agored i'r perygl o wynebu cosbau ariannol pe bai'n methu â chyrraedd targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-13

33 Cynhaliodd y Cyngor ei lefel uchel o gyflawniad wrth ddargyfeirio gwastraff trefol o safleoedd tirlenwi ac mae'n un o'r awdurdodau sy'n perfformio orau yng Nghymru (ail) yn hyn o beth. Mae eisoes wedi cyrraedd targedau 2019-20 Llywodraeth Cymru ar gyfer dargyfeirio gwastraff trefol pydradwy o safleoedd tirlenwi. Gwaethygodd y perfformiad yn 2011-12 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol; cynyddodd swm y gwastraff a ddanfonwyd i safleoedd tirlenwi o 25.77 y cant i 28.3 y cant o ganlyniad i ddamwain a fu'n gyfrifol am gau un o safleoedd y Cyngor dros dro.

34 Roedd canran y gwastraff trefol a ddefnyddiwyd i adfer gwres a phŵer yn 22 y cant ac yn cymharu'n dda iawn â chyfartaledd Cymru o 4.05 y cant.

35 Roedd canran y gwastraff trefol a baratowyd ar gyfer ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gasglu fel biowastraff wedi'i wahanu yn y tarddle islaw'r cyfartaledd ym mhob categori (gweler Arddangosyn 1). Roedd y categori hwn o wastraff yn 42 y cant i gyd o gymharu â chyfartaledd Cymru ar gyfer 2011-12 o 48 y cant. Dyma'r perfformiad gwaethaf yng Nghymru.

36 Er mwyn gwella perfformiad ailgylchu, mae'r Cyngor wedi sefydlu trefn ar gyfer casglu gwastraff y cartref bob bythefnos, ac roedd y gwaith o'i chyflwyno i'r rhan fwyaf o gartrefi wedi'i gwblhau erbyn mis Chwefror 2012.

37 Mae'r Cyngor yn cydnabod yr heriau sy'n ei wynebu i gyrraedd targedau ailgylchu Llywodraeth Cymru yn y dyfodol (52 y cant yn 2013, 58 y cant yn 2016 a 64 y cant yn 2020), a gallai arwain at gosbau ariannol sylweddol i'r Cyngor (£250,000 am bob un y cant yn brin o'r targed). Mae strategaeth rheoli gwastraff wedi'i mabwysiadu i geisio sicrhau'r gwelliannau gofynnol.

Arddangosyn 1: Dangosyddion perfformiad ar gyfer rheoli gwastraff

Yn ystod 2011-12, cymysg oedd y perfformiad o gymharu â chyfartaledd Cymru a pherfformiad 2010-11

| | 2010-11 | 2011-12 | Cyfartaledd Cymru |
|---|---|---|---|
| Canran y gwastraff trefol a anfonwyd i safleoedd tirlenwi. | 25.77% | 28.3% | 44.73% |
| Canran y gwastraff trefol a ddefnyddiwyd i adfer gwres a phŵer. | 26.03% | 22.2% | 4.05% |
| Canran y gwastraff trefol a gasglwyd gan awdurdod lleol sy'n cael: | | | |
| • ei baratoi i'w ailddefnyddio; | 0.45% | 0.18% | 0.49% |
| • ei ailgylchu; a'i | 26.9% | 28.19% | 29.03% |
| • gasglu fel biowastraff wedi'i wahanu yn y tarddle a'i gompostio neu ei drin yn fiolegol mewn ffordd arall. | 13.9% | 13.46% | 18.92% |
| Cyfanswm | 41% | 42% | 48% |
| Canran y gwastraff trefol a gasglwyd gan awdurdodau lleol a'i baratoi i'w ailddefnyddio a/neu ei ailgylchu, yn cynnwys biowastraff wedi'i wahanu yn y tarddle sy'n cael ei gompostio neu ei drin yn fiolegol mewn ffordd arall. | 41.28% | 41.83% | 48.53% |

*Ffynhonnell: Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2011-12*

## Mae'r Cyngor wedi parhau i ganolbwyntio ar adfywio fel blaenoriaeth a llwyddodd i sicrhau cyllid ar gyfer ariannu ei raglen o welliannau

38 Mae'r Cyngor wedi parhau i ganolbwyntio ar adfywio fel blaenoriaeth, yn enwedig adfywio canol trefi a darparu cyfleusterau cymunedol allweddol yn lle rhai a gollwyd mewn tanau. Llwyddodd y Cyngor i sicrhau £14.4 miliwn o gyllid ar gyfer ei raglen welliannau yng Nghanol Tref Castell-nedd, Canol Tref Port Talbot a Chanolfan Fenter Croeserw.

39 Cwblhaodd y Cyngor y gwaith o adfer Neuadd Gwyn yng Nghastell-nedd a ail-agorodd ym mis Mawrth 2012 a chwblhaodd gwaith sylweddol yng Ngerddi Fictoria a ail-agorodd ym mis Gorffennaf 2011.

40 Ar 16 Rhagfyr 2009, cafodd canolfan chwaraeon Afan Lido eu difrodi'n ddrwg gan dân. Mae'r Cyngor wedi dechrau ar ddau gylch o ymgynghori i bennu'r gymysgedd o gyfleusterau sydd eu hangen a lleoliad y ganolfan ar y lan sy'n cael ei hailddatblygu. Mae'r Cyngor hefyd wedi nodi ffrydiau ariannu ar gyfer y ganolfan yn y dyfodol.

41 Roedd nifer y bobl a ddefnyddiodd lyfrgelloedd cyhoeddus fesul 1,000 o'r boblogaeth yn 6,926 ymweliad yn 2011-12, a oedd yn welliant ar nifer ymweliadau'r flwyddyn cynt, sef 6,754 a chyfartaledd Cymru ar gyfer 2011-12, sef 6.048, sy'n rhoi Castell-nedd Port Talbot yn y chwartel uchaf.

42 Roedd nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol gyda'r ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol fesul 1,000 o'r boblogaeth yn 5,589 yn 2011-12 a gymharai'n ffafriol â pherfformiad 2010-11 o 4,831, ond yn llai ffafriol â chyfartaledd Cymru, sef 8,760. Dylai'r mesur hwn lywio ailarfarniad y Cyngor o'r amcanion gwella o ystyried ei ymrwymiad i wneud gwella iechyd a lles yn rhan annatod o'i holl bolisïau.

## Roedd mwy o bobl yn cymryd rhan mewn mentrau cyflogaeth a noddir gan y Cyngor ond cafwyd llai o geisiadau am gymorth gan fusnesau

43 Yn 2011, Castell-nedd Port Talbot oedd â'r gyfradd isaf ond dwy o bobl mewn gwaith o blith awdurdodau lleol Cymru. Roedd chwech o awdurdodau lleol Cymru â chyfradd uwch o blant yn byw mewn cartrefi di-waith na Chastell-nedd Port Talbot. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, mae'r Cyngor yn pwyso ar ddau brosiect yn arbennig.

44 Sefydlwyd *Prosiect COASTAL* (Cynghrair Timau Creu Cyfleoedd a Sgiliau) i helpu pobl i oresgyn rhwystrau rhag gweithio. Cefnogir y prosiect gan arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Ceir chwe phartner, yn cynnwys Pen-y-bont ar Ogwr, Abertawe, Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin.

45 Mae *Prosiect COASTAL* Castell-nedd Port Talbot yn helpu pobl ag anableddau i ddatblygu sgiliau gwaith. Yn ystod 2010-11, drwy'r prosiect hwn, cynorthwyodd y Cyngor 297 o bobl naill ai i gael gwaith, neu i symud yn nes at gael gwaith. Yn ystod 2011-12, cynorthwyodd y Cyngor 40 o bobl i ddod o hyd i waith rhan-amser neu amser llawn a 543 o bobl i gyflawni canlyniad cadarnhaol, er enghraifft, dysgu pellach, gwaith neu ennill cymhwyster. Ni ddarparwyd data

cymharol uniongyrchol yn Adroddiad Perfformiad 2011-12 i lywio asesiad o berfformiad. Er enghraifft, nododd Adroddiad Perfformiad 2010-11 fod y Cyngor wedi cynorthwyo 297 o bobl naill ai i gael gwaith neu i symud yn nes at gael gwaith. Dyma enghraifft o wella perfformiad na chafodd ei nodi yn Adroddiad Perfformiad 2011-12.

46 Mae'r Cyngor yn arwain *Prosiect Gweithffyrdd y De-orllewin* mewn cydweithrediad â Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro ac Abertawe. Cefnogir y prosiect gan bron £13 miliwn o Gronfa Gymdeithasol Ewrop a'i nod yw helpu pobl economaidd anweithgar, yn enwedig y rhai sy'n ddi-waith yn hirdymor i wella eu cyflogadwyedd. Yn 2010-11, cynorthwyodd y prosiect 1,594 o bobl o fewn ffiniau Castell-nedd Port Talbot nad oedd mewn gwaith, ac o'r rhain, llwyddodd 545 i gael gwaith cynaliadwy. Ar ddiwedd mis Mawrth 2012, roedd 2,484 o bobl yn rhan o'r prosiect. Er bod llai o bobl na'r flwyddyn flaenorol yn rhan o'r prosiect yn sgil newid yn y meini prawf cymhwysedd, llwyddodd nifer uwch o'r cyfranogwyr (1,083) i gael gwaith cynaliadwy.

47 Mae'r Cyngor yn ymrwymo i ddarparu gwasanaeth effeithiol a chefnogol i fusnesau lleol i'w helpu i ffynnu. Fodd bynnag, yn 2011-12, derbyniodd y Cyngor lai o ymholiadau/ceisiadau gan fusnesau lleol yn arwain at roi cyngor, gwybodaeth neu gymorth ariannol, sef 663 o gymharu â 1,026 yn y flwyddyn flaenorol.

## Ers trosglwyddo ei stoc tai i Cartrefi CNPT, mae safon cartrefi tenantiaid wedi gwella a bu cynnydd sylweddol tuag at ennill Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)

48 Yn 2010, pleidleisiodd tenantiaid y Cyngor o blaid trosglwyddo ei stoc tai. Ar 4 Mawrth 2011, trosglwyddodd y Cyngor ei stoc tai i Cartrefi CNPT. Fel rhan o'r cytundeb trosglwyddo, ymrwymodd Cartrefi CNPT i ddarparu adroddiadau bob chwe mis i Bwyllgor Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Thai Cabinet y Cyngor ar y cynnydd a wneir ar gyflawni'r addewidion a wnaed i denantiaid.

49 Mae'r Cyngor yn monitro perfformiad yn erbyn yr addewidion a wnaed i denantiaid yn y wybodaeth a gyflwynwyd adeg y bleidlais. Dyma gyfrwng priodol ar gyfer monitro'r gwaith o gwblhau tasgau o fewn amserlen, er enghraifft y rhaglen gwaith mawr.

50 Mae Cartrefi CNPT wedi gwneud cynnydd sylweddol ar gyflawni ei raglen gwaith mawr sy'n datblygu'n gynt na'r disgwyl, gan gynnwys ailosod ystafelloedd ymolchi, ceginau a ffenestri yn y tai a drosglwyddwyd yn Sandfields, Castell-nedd a Phontardawe. Ers 31 Mawrth 2012, roedd 479 eiddo wedi cael ffenestri newydd, 335 wedi cael ceginau newydd, a 335 wedi cael ystafelloedd ymolchi newydd neu wedi'u huwchraddio wrth i Cartrefi CNPT geisio sicrhau Safon Ansawdd Tai Cymru.

51 Wrth i'r rhaglen fuddsoddi barhau, mae Cartrefi CNPT yn cyflawni ei ymrwymiad i gyflogi contractwyr lleol ac asiantaethau lleol i greu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant. Ar hyn o bryd, mae contractwyr wedi creu 52 o swyddi newydd, a daw dros 80 y cant o'r gweithwyr o'r ardal. Roedd 50 y cant o'r rhai a recriwtiwyd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir. Cafodd partneriaethau eu creu â Gyrfa Cymru a Choleg Castell-nedd Port Talbot ar gyfer darparu prentisiaethau. Nid yw'r Adroddiad Perfformiad yn eglur ynglŷn â pha dargedau a osodwyd ar gyfer y rhaglen fuddsoddi ac adfywio economaidd er mwyn cael syniad o raddfa'r hyn a gyflawnwyd.

52 Yn 2010-11, dywedodd y Cyngor ei fod ymhlith yr awdurdodau a berfformiodd orau yng Nghymru o ran cymorth a gwasanaethau digartrefedd. Llwyddodd i leihau nifer y dyddiau mae'n eu cymryd i gyflawni ei ddyletswydd ddigartrefedd o 86 diwrnod i 66 diwrnod. Mae perfformiad yn y maes hwn wedi disgyn i 87 diwrnod yn 2011-12 sy'n waeth na'r hyn oedd yn 2009-10 ond yn dal i fod ychydig yn well na chyfartaledd Cymru o 89. Mae perfformiad ar atal digartrefedd am o leiaf chwe mis wedi parhau'n gymharol sefydlog ar 97.48 y cant o gymharu â 97 y cant yn 2010-11. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 60.46 y cant ac yn chwartel uchaf Cymru.

53 Ar gyfartaledd, ni threuliodd teuluoedd digartref â phlant yng Nghastell-nedd Port Talbot unrhyw ddyddiau o gwbl mewn llety gwely a brecwast yn ystod 2011-12, o gymharu â thri diwrnod yn 2010-11 a chyfartaledd Cymru o 18.79. Roedd y perfformiad yn y gwasanaethau eraill yn ymwneud â thai yn gadarnhaol ar y cyfan. O'r 11 mesur, roedd pump yn dangos perfformiad islaw cyfartaledd Cymru, ac o'r pump, roedd pedwar yn dangos perfformiad gwell o gymharu â blynyddoedd blaenorol ac un yn dangos gostyngiad bychan.

## Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer gweinyddu budd-dal tai yn cefnogi gwelliant, a dylai'r prosesau cyfredol sicrhau bod taliadau prydlon a chywir yn cael eu gwneud i'r bobl ddylai eu cael

54 Mae'r gwasanaeth wedi gweithredu argymhellion a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru yn 2010. Mae amserau prosesu hawliadau budd-dal tai newydd a newidiadau mewn amgylchiadau yn well na chyfartaledd Cymru. Llwyddodd y gwasanaeth i dorri tri diwrnod oddi ar yr amser cyfartalog y mae'n ei gymryd i brosesu hawliadau newydd rhwng 2010-11 a 2011-12. Mae lefelau cywirdeb wedi gwella ac fe gafodd canran uwch o ordaliadau eu canfod a'u hadfer. Mae nifer yr atgyfeiriadau ac archwiliadau i dwyll wedi cynyddu, a chafwyd nifer uwch o gosbau llwyddiannus yn ystod 2011-12 nag yn y flwyddyn flaenorol. Mae nifer apeliadau wedi gostwng, ac ymdrinnir â'r rhai sy'n cael eu derbyn yn gyflymach na'r cyfartaledd trwy Gymru.

## Bu oedi yn y broses o baratoi a chytuno ar *Gynllun Iaith Gymraeg* diwygiedig sydd wedi golygu mai araf fu'r cynnydd o ran gwella ei wefan gorfforaethol a chynllunio gweithlu dwyieithog

55 Crëwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Dros amser fe fydd pwerau newydd i osod safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy ddeddfwriaeth. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru i arolygu a chynghori ar weithrediad cynlluniau iaith. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod lleol wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro; yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach yn ôl yr angen. Mae'r Comisiynydd yn crynhoi ei sylwadau mewn perthynas â'r Cyngor fel a ganlyn:

56 'Mae'r gwaith o baratoi a chytuno ar Gynllun Iaith Gymraeg diwygiedig wedi'i oedi ymhellach, sydd wedi profi'n rhwystr i ddatblygiad rhai gwasanaethau. Byddem yn disgwyl i'r Cyngor ganolbwyntio yn y flwyddyn nesaf ar sicrhau bod rhaglen waith mewn lle ar gyfer pontio'r cyfnod hyd at weithredu'r drefn newydd o safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Dylai'r rhaglen hefyd flaenoriaethu gwelliannau i'r wefan gorfforaethol a rhoi ystyriaeth i faterion cynllunio'r gweithlu dwyieithog. Mae'r Cyngor yn meddu ar drefniadau gweinyddu'r Cynllun a chasglu a chadw data ar sgiliau ieithyddol staff a fydd yn cynorthwyo gyda'r blaenoriaethau yma.'

# Mae'r Cyngor yn cymryd camau i wella ei ddulliau o reoli perfformiad, ond heb ddulliau da o fesur effaith i ddefnyddwyr gwasanaethau, mae'n anodd pennu a yw dyheadau'n cael eu bodloni

## Mae potensial i'r Cyngor wella ei drefniadau adrodd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gynnwys a chyhoeddi ei Adroddiad Perfformiad

57 Cyflawnodd y Cyngor ei ddyletswyddau statudol drwy gyhoeddi ei adroddiad perfformiad blynyddol ar gyfer 2011-12 erbyn y dyddiad cau ar 31 Hydref 2012. Roedd yr Adroddiad Perfformiad yn cynnwys gwybodaeth am y cynnydd a wnaeth y Cyngor tuag at gyflawni ei 11 amcan gwella. Asesiad cyffredinol y Cyngor o'i berfformiad ei hun oedd ei fod wedi perfformio'n gadarn; gan arddangos perfformiad gwell mewn nifer o wasanaethau.

58 Yn ein *Llythyr Asesiad Gwella* dyddiedig 17 Rhagfyr 2012, cadarnhawyd bod yr Adroddiad Perfformiad yn cynnwys digon o dystiolaeth i arddangos i ba raddau yr oedd y Cyngor wedi gwella ei wasanaethau a rhoddodd sicrwydd i ni bod trefniadau naill ai ar waith neu'n cael eu datblygu ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus.

59 Soniodd y Cyngor fod bron i ddwy ran o dair o'i fesurau perfformiad yn dangos gwelliant o gymharu â llai na 50 y cant o'r mesurau yn y flwyddyn flaenorol.

60 Mae'r Mesur yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd ynglŷn â chyflawni ei ddyletswyddau. Daethom i'r casgliad fod potensial i'r Cyngor wella ei drefniadau adrodd ar wella yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, er enghraifft:

- ehangu ystod y dystiolaeth i gefnogi'r hunanasesiad (gan ddefnyddio adolygiadau system) i gyflwyno darlun llawnach o ansawdd gwasanaethau a phrofiadau defnyddwyr;
- egluro dulliau a ddefnyddir i werthuso ei berfformiad, er enghraifft drwy adolygiadau gan gymheiriaid, asesiadau craffu neu feincnodi;
- egluro a yw mentrau ar y cyd wedi cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd a chyfrannu at gyflawni amcanion gwella;
- manteisio ar gyfleoedd i fod yn fwy blaengar yn ei ystod o weithgareddau hyrwyddo ar gyfer hwyluso mynediad; a
- adrodd ar berfformiad blaenorol yn llawnach a defnyddio gwybodaeth am berfformiad yn fwy effeithiol i arddangos canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau.

## Roedd datganiadau ariannol y Cyngor yn foddhaol ar y cyfan

61 Yn ddiweddar, rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ei farn ar gyfrifon y Cyngor. Yn seiliedig ar hyn, barn yr Archwilydd Cyffredinol yw bod y datganiadau ariannol at ei gilydd yn foddhaol. Mae Atodiad 3 yn rhoi mwy o fanylion.

## Mae'r Cyngor yn adrodd y dystiolaeth sydd ei hangen i arddangos gwelliant, ac mae'n cydnabod yr angen i wneud gwaith pellach ar ddatblygu dull corfforaethol o reoli perfformiad i gryfhau cysylltiadau rhwng gweithgarwch gwasanaethau a chyflawni amcanion gwella

62 Yn seiliedig ar waith a gyflawnwyd hyd yn hyn gennym ni a gan reoleiddwyr perthnasol, ac ar y sail honno'n unig, daethom i'r casgliad fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus yn ystod 2012-13.

63 Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd gan y Cyngor yn cynnwys ystod o weithgareddau wedi'u cefnogi gan gymysgedd o ddangosyddion perfformiad lleol a statudol. Ystyriem fod yr Adroddiad Perfformiad yn gytbwys o ran y modd y mae'n cyfeirio at wasanaethau sy'n perfformio'n dda a gwasanaethau yr ystyrid eu bod yn tangyflawni.

64 Mae'r Cyngor wedi blaenoriaethu ac yn symud ymlaen â'i raglen o adolygiadau system ar gyfer meysydd gwasanaeth lle mae gwelliant yn debygol o gael yr effaith fwyaf. Bydd yr adolygiadau'n canolbwyntio ar nodi'r hyn sy'n bwysig i ddefnyddwyr gwasanaethau a'r ffordd orau o gyflawni'r elfennau pwysig hynny o'r gwasanaeth yn fwy effeithlon. Yna, bydd y gwasanaeth yn mesur perfformiad ar sail yr elfennau allweddol hynny. Y tri phrif gam yw:

- Cadarnhau – deall y sefydliad fel system
- Cynllunio – nodi'r hyn sy'n ysgogi newid
- Gwneud – gweithredu'n uniongyrchol ar y system

65 Yr Uned Rheoli Newid a Blaengaredd sydd â'r cyfrifoldeb dros goladu gwybodaeth am berfformiad er mwyn cyflawni cyfrifoldebau'r Cyngor o dan y Mesur ac adrodd i'r Grŵp Cyfarwyddwr Corfforaethol, y Cabinet, y Pwyllgor Polisi ac Adnoddau, a'r Cyngor. Mae'r Uned wedi ymgysylltu â ni yn ystod 2012-13, gan weithredu ar arsylwadau a wnaed i gefnogi'r gwaith o ddrafftio Cynllun Corfforaethol 2013-2016.

66 Mae pob pwyllgor craffu yn derbyn adroddiadau monitro cyllidebau a pherfformiad bob chwarter drwy'r flwyddyn gyda'r cyfrifoldeb cyffredinol dros fonitro perfformiad gan y Pwyllgor Polisi ac Adnoddau. Mae pob pwyllgor craffu yn cynnal cyfarfodydd penodol i drafod cynigion perthnasol y gyllideb, yn cynnwys strategaethau arbed arian penodol cyn i'r Cyngor ystyried y cynnig. Mae gwasanaethau'n darparu gwybodaeth am berfformiad fel rhan o'u hamserlen adrodd statudol neu'n sicrhau adroddiadau rheolaidd ar gyfer y Weithrediaeth, y Pwyllgor Craffu a'r Cyngor.

67 Mae'r Uned Rheoli Newid a Blaengaredd wedi dechrau ymgysylltu'n fwy uniongyrchol â gwasanaethau i'w hannog i gymryd mwy o gyfrifoldeb a bod yn fwy atebol am eu cyfraniad tuag at gyflawni'r amcanion gwella. Mae aelodau'r Uned Rheoli Newid a Blaengaredd wedi mynychu cyfarfodydd yr Uwch Dîm Rheoli ym mhob cyfarwyddiaeth i drafod mesurau perfformiad a chodi eu proffil.

68 Mae AGGCC yn darparu asesiad cyffredinol blynyddol o'r gwasanaethau cymdeithasol, gan gyfeirio at werthusiad Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor ei hun. Roedd AGGCC yn ystyried bod adroddiad y cyfarwyddwr yn rhoi cyfrif cynhwysfawr a chywir o berfformiad gwasanaethau'r Cyngor i oedolion, ac yn tynnu sylw at feysydd o berfformiad gwael mewn gwasanaethau plant.

69 Roedd y Cyngor yn cydnabod yr angen i ddatblygu dull corfforaethol cyson o reoli perfformiad a hunanwerthuso, a sefydlodd grŵp gorchwyl a gorffen wedi'i arwain gan yr aelodau i adolygu'r trefniadau sydd gan y Cyngor i sicrhau gwelliant parhaus yn ei swyddogaethau.

70 Awgrymodd yr adolygiad y dylid gwneud y canlynol:

- cyflwyno gwybodaeth am berfformiad mewn fformat cryno ar ffurf adroddiad cerdyn adrodd /dangosfwrdd wedi'i safoni;
- mabwysiadu syniadaeth Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau sy'n ceisio gwahanu canlyniadau perfformiad a chanlyniadau poblogaeth, a sefydlu diwylliant cyson o hunanwerthuso;
- cerrig milltir sy'n edrych tua'r dyfodol ar gyfer mesur cyflawniad dyheadau;
- amseru adroddiadau perfformiad a rhaglenni gwaith pwyllgorau craffu i sicrhau bod adroddiadau perfformiad ar gael i aelodau trwy gydol y flwyddyn;
- adolygu prosesau cynllunio busnes i wella cysondeb; a
- chynnwys yr aelodau yn y gwaith o gynhyrchu'r adolygiad perfformiad blynyddol i sicrhau bod effaith y gwaith o graffu ar wasanaethau yn cael ei egluro'n dda.

71 Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ym mis Mawrth 2012 cyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai ac mae'r Uned Rheoli Newid a Blaengaredd yn ymgynghori ar hyn o bryd ar y dull cerdyn sgorio cytbwys.

## Yn absenoldeb cerrig milltir perfformiad eglur ar gyfer rhai agweddau ar wasanaethau, mae'n anodd sefydlu a yw'r dyheadau ar gyfer gwella yn cael eu bodloni

72 Mae'r adroddiad blynyddol yn ystyried effaith adolygiadau systemau ar ei wasanaethau, ac mae'n:

- gofyn i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau 'beth sy'n bwysig' iddynt;
- ceisio gwella effeithlonrwydd y gwasanaethau hynny; ac
- ymdrechu i wella profiadau pobl ohonynt.

73 Fel rhan o'r rhaglen o adolygiadau, dynodwyd 13 maes ar gyfer gwella yn adran 'Gwella ein Busnes' yr Adroddiad Perfformiad. Nod y Cyngor yw sicrhau y bydd canlyniadau'r adolygiadau, yn ogystal ag ail-drafod telerau ac amodau gwasanaeth gweithwyr cyngor, yn helpu i sicrhau cydbwysedd rhwng gwella gwasanaethau a diogelu cyflogaeth wrth fantoli'r gyllideb.

74 Rydym yn cydnabod yr angen i sicrhau bod cydbwysedd yn y Cynllun Corfforaethol rhwng bod yn ddigon eglur am y gwelliannau disgwyliedig a lefel y manylion yn y Cynllun Corfforaethol o gymharu â'r hyn sydd ar gael ar lefel gwasanaeth. Mae'r Cyngor wedi datblygu dogfen i ddangos sut mae ei amcanion a'i ganlyniadau yn cyd-fynd â fframwaith rheoli corfforaethol newydd sy'n cysylltu â'r Blaengynllun Ariannol, cynllun corfforaethol a'r cynllun integredig sengl. Mae'r cynllun hefyd yn cyfeirio at egwyddorion ategol cydweithredu, ymgysylltu cyhoeddus effeithiol a chydraddoldebau a mabwysiadu cynlluniau gwella gwasanaeth. Byddwn yn parhau i drafod hyn â'r Uned Rheoli Newid a Blaengaredd i geisio sicrhau disgrifiad cryno ar lefel Cynllun Corfforaethol wedi'i gefnogi gan amrywiaeth o fesurau ar lefel gwasanaeth a fydd yn helpu i werthuso perfformiad. Nid oedd targedau cyflawniadau Cynllun Corfforaethol 2011-2014 ar gyfer gwasanaethau penodol yn ddigon eglur o safbwynt amcanion. Er enghraifft, maent yn defnyddio ymadroddion fel 'parhau i wneud gwelliannau' neu 'cynnal adolygiad'. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd sefydlu pa un a yw'r gwelliannau 'rydym eisiau' wedi'u bodloni. Er enghraifft, gellid mynegi'r targed i 'barhau i wneud gwelliannau yn y gwasanaethau draenio' mewn ffordd fwy ystyrlon i ddefnyddiwr gwasanaethau, er enghraifft: 'gwella ansawdd gwasanaethau draenio fel bod y cyhoedd yn dioddef llai o lifogydd ac aflonyddu'. Mae pob un o'r gweithgareddau y ceir adroddiadau yn eu cylch yn berthnasol i sicrhau canlyniadau ar gyfer dinasyddion, ond ni chânt eu mynegi o safbwynt defnyddiwr gwasanaethau. Dyma rai enghreifftiau o adran 'Gwella ein Busnes' yr Adroddiad Perfformiad.

75 Y targed yng Nghynllun Corfforaethol 2011-2014 yw 'cwblhau gweithredu'r trefniadau absenoldeb salwch newydd'. Yn yr Adroddiad Perfformiad, mae'r Cyngor yn nodi: 'rhoddwyd polisi rheoli salwch newydd ar waith â'r nod o gynyddu presenoldeb yr holl weithwyr yn y gwaith.' (Yr effaith fu lleihau salwch tymor byr ond mae lefelau salwch cyffredinol wedi codi er bod lefelau absenoldeb salwch islaw cyfartaledd Cymru.) Ni wnaed cysylltiad rhwng amrywiadau yn absenoldeb salwch a gwella perfformiad wrth i'r Cyngor geisio gwneud defnydd effeithiol o adnoddau ar gyfer darparu gwasanaethau rheng flaen.

76 Y targed yng Nghynllun Corfforaethol 2011-2014 yw 'gwneud gwelliannau yn y gwasanaethau arlwyo a glanhau'. Fodd bynnag, nid yw hyn yn egluro'r gwelliannau y dymunir eu gweld. Y canlyniadau oedd yr arbedion ariannol o £112,000 y rhagwelwyd eu rhyddhau dros ddwy flynedd, ac y byddai boddhad cwsmeriaid yn cael ei gadw ar y lefelau presennol wrth i'r arbedion gael eu gwireddu. Ni cheir unrhyw gyfeiriad at y gwasanaeth yn gwella neu at lefelau boddhad cwsmeriaid, ac mae'r unig fesur a gofnodwyd yn dangos arbediad ariannol.

77 Targed Cynllun Corfforaethol 2011-2014 yw 'parhau i wneud gwelliannau yn y ffordd y mae'r Cyngor yn rheoli ei wasanaethau cymdogaeth'. Mae'r sylwadau'n ystyried gwelliannau i'r amser cyfartalog ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon o fewn 5 diwrnod o 84 y cant yn 2010-11 i 96.5 y cant yn 2011-12, sy'n well na

chyfartaledd Cymru o 91.4 y cant. Nid yw'n nodi sut y bydd defnyddwyr gwasanaethau yn elwa.

78 Hefyd, nododd yr Adroddiad Perfformiad gydberthyniad cryf rhwng lleihau troseddau a gwaith partneriaeth agosach rhwng y Cyngor, yr heddlu a'r gwasanaethau tân mewn ardaloedd adfywio penodol sy'n rhan o gynlluniau peilot. Nid oes data i gefnogi'r datganiad hwn. Mae'n llai eglur sut y bydd newidiadau i pa mor aml y mae gweithgarwch torri gwair, codi sbwriel ac ysgubo peiriannol yn digwydd yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr gwasanaethau.

79 Nid yw'r sylwadau yn yr Adroddiad Perfformiad ar yr adolygiad o'r gwasanaeth draenio yn egluro sut y bydd newidiadau yn y gwasanaeth o ganlyniad uniongyrchol i ddefnyddio egwyddorion Systemau Darbodus yn effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae'r gwasanaeth yn fwy eglur ynglŷn â lefel y galw y mae'n ei wynebu, ac mae yn y broses o adleoli adnoddau er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl. Mae'r Adroddiad Perfformiad yn mynd rhagddo i wneud sylwadau ar effaith glaw trwm ar berfformiad gan arwain at gynyddu'r amser a gymer i ddatrys ceisiadau, sylwadau neu gwynion ynglŷn â chwteri'n gorlifo a galwadau i fannau problemus. Ni cheir unrhyw esboniad ynglŷn â beth mae'r gwasanaeth yn ceisio ei gyflawni neu sicrwydd ynglŷn â sut i reoli cyfnodau o law trwm yn well yn y dyfodol.

80 'Mae gwaith hefyd yn parhau i fodloni gofynion y cyngor o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr '. Nid yw'r Adroddiad Perfformiad yn rhoi sicrwydd y bydd gwaith ataliol yn digwydd o dan gyfrifoldebau ychwanegol y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr er budd y trigolion sy'n byw yn yr ardaloedd â blaenoriaeth sy'n cael eu heffeithio waethaf.

## Nid yw effaith gwaith craffu ar wasanaethau a chydweithio i sicrhau gwelliant yn cael ei hesbonio'n eglur bob amser

81 Mae'r Adroddiad Perfformiad yn cyfeirio at 2011-12 fel blwyddyn o gynyddu gweithgaredd craffu; nid yw'n egluro beth yw effaith yr adolygiadau craffu. Cyfeirir at adolygiadau'r grŵp gorchwyl a gorffen o'r canlynol:

- cydraddoldebau;
- gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned Partneriaeth Castell-nedd Port Talbot Mwy Diogel; a
- threfniadau rheoli perfformiad y Cyngor.

82 Er bod deunydd pwnc yr adolygiadau hyn yn berthnasol, ac yn cael ei yrru ym mhob achos gan ymrwymiadau statudol a/neu ymwybyddiaeth gorfforaethol o'r angen i wella a amlygwyd yn yr adroddiadau perfformiad, ni chynigir esboniad o'r manteision a sicrhawyd, y gwaith a wnaed gan swyddogion mewn ymateb i'r argymhellion, na'r effaith a ragwelwyd ohonynt ar yr amcanion gwella.

83 Er enghraifft, roedd gwybodaeth yn yr Adroddiad Perfformiad yn tybio bod y dirywiad yn yr economi wedi llesteirio cynnydd yn y cymorth i fusnesau lleol. Roedd yr aelodau'n cydnabod bod busnesau bach a chanolig eu maint yn rhan allweddol o economi'r DU a Chymru, ac na ddylid tanbrisio pwysigrwydd busnesau bach ar y lefel leol, am eu bod yn gwneud cyfraniad hollbwysig i'r ddarpariaeth gyflogaeth ac iechyd ac amrywiaeth economi Castell-nedd Port Talbot.

84 Mae tirwedd gyfnewidiol cymorth busnes wedi creu goblygiadau i'r cwmnïau bach sy'n gofyn am gymorth a hefyd i'r Cyngor ei hun o ran y cymorth y mae'n gallu ei ddarparu, felly cytunodd y pwyllgor y byddai grŵp bychan o'r aelodau yn cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth gyfredol o gymorth i fusnesau yng Nghastell-nedd Port Talbot gyda golwg ar ddenu mwy o fusnesau i'r ardal a chwalu rhwystrau i fusnes.

85 O ganlyniad uniongyrchol i'r argymhellion a dderbyniwyd o'r adolygiad, newidiwyd strwythur y tîm Cymorth Busnes i gynnwys un pwynt cyswllt ar gyfer pob maes busnes h.y. twristiaeth, adeiladu, manwerthu. Cafwyd cytundeb cyfannol y byddai'r un pwynt cyswllt hwn o fwy o werth i ddefnyddwyr gwasanaethau a bydd yn arwain at wella'r gwasanaeth. Yn yr un modd, deilliodd gwelliannau uniongyrchol pellach o'r adolygiad gan gynnwys gweithredu'r pecyn cymorth cynhwysfawr ar gyfer dechrau busnes sy'n cael ei gynnig bellach, gan gynnwys cyllid i gefnogi cynllunio gwefan, marchnata, llogi stondinau a thaflenni ar gyfer ffeiriau ac arddangosiadau, yn ogystal â chyngor ar rwydweithio. Ni chafodd canlyniadau'r adolygiad hwn eu hystyried yn yr Adroddiad Perfformiad. Nid yw'n eglur sut y mesurir yr effeithiau, sut y bydd defnyddwyr gwasanaethau'n elwa, a pha drefniadau craffu sydd ar waith ar gyfer olrhain cynnydd dilynol.

86 Mae'r Cyngor yn asesu ei drefniadau gweithio mewn partneriaeth fel rhai cadarn, ond nid yw'n darparu digon o dystiolaeth o'r canlyniadau a gyflawnwyd i gefnogi'r asesiad hwn. Mae Adran 5 yr Adroddiad Perfformiad yn crynhoi mentrau cydweithredol allweddol ar gyfer y Cyngor a'r ardal, ond nid yw'n egluro i ba raddau y maent wedi cyflawni canlyniadau a fwriadwyd ac a fyddant yn cyfrannu tuag at flaenoriaethau'r Cyngor.

# Er bod trefniadau'r Cyngor i gefnogi gwelliant yn gadarn at ei gilydd, mae'n wynebu rhai penderfyniadau ariannol anodd wrth wneud newidiadau sylweddol i'w dîm rheoli corfforaethol

## Mae'r Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol

87 Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliant o dan y Mesur ac wedi sefydlu amcanion gwella ar gyfer 2012-13. Ein casgliad oedd 'ei fod yn cydymffurfio'n llawn â'r amserlenni cyhoeddi a nodwyd a'i fod yn cynnwys yr hyn sy'n ofynnol ac a argymhellir'.

88 Ni fu newid yng ngweinyddiaeth y Cyngor yn dilyn etholiadau mis Mai. Cynyddodd mwyafrif y Blaid Lafur ac o ganlyniad i hynny, penderfynodd y Cyngor ailddatgan ei amcanion ar gyfer 2012-13. Mae wedi cysoni ei ymrwymiadau etholiadol newydd â gwaith cynllunio ariannol a gwaith cynllunio gwasanaethau er mwyn sefydlu cyfres newydd o flaenoriaethau ac amcanion ar gyfer y cyfnod rhwng 2013 a 2017.

89 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai amcanion gwella fod yn gyfreithlon, yn glir ac yn gadarn, yn gyflawnadwy a gweladwy. Er bod Cynllun ac amcanion gwella'r Cyngor yn cwmpasu'r agweddau hyn, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo ddatblygu dull o fesur perfformiad ar sail canlyniadau gan mai dim ond yn rhai o adrannau ei Gynllun Gwella Corfforaethol 2012-13 y caiff dangosyddion perfformiad eu cynnwys i ddangos sut y pennir gwelliant. Er enghraifft, ni chynhwysodd ystod ehangach o ffynonellau gwybodaeth, megis rhagor o wybodaeth o arolygon a grwpiau ffocws, a fyddai hefyd yn darparu gwybodaeth fwy ansoddol er mwyn helpu'r Cyngor i bennu effaith ei waith ar ei ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau.

90 Mae strwythur y cabinet a'r pwyllgor craffu yn aros yr un fath. Mae gan y Cyngor naw aelod Cabinet â phortffolios gwasanaethau penodol, a phum bwrdd Cabinet, ac mae saith amcan gwella'r Cyngor yn cyd-fynd yn agos â strwythur y Cabinet a byrddau cabinet, er enghraifft 'Gwella Addysg' a 'Gwella Gwasanaethau i Bobl Hŷn'. Ceir pum pwyllgor craffu sy'n dilyn yr un strwythur â'r Cabinet.

91 Gwnaed newidiadau sylweddol wrth benodi uwch aelodau fel bod y Cabinet yn cynnwys cymysgedd o gynghorwyr newydd a phrofiadol a chafodd pob un ei benodi i rôl newydd gyda dau eithriad, Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden a Gwasanaethau Gofal Stryd a Phriffyrdd. Symudodd y Cyngor newydd yn gyflym i ddyrannu'r rolau a'r cyfrifoldebau hyn gan sicrhau eu bod ar waith yn fuan wedi'r etholiad ym mis Mai 2012.

92 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gyflawni rhaglen drawsnewid a fu ar waith ers 2009. Ers hynny, mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol yn y rhaglen hon. Dyma'r prif gyflawniadau:

- trosglwyddodd ei stoc tai i landlord cymdeithasol cofrestredig lleol, Cartrefi CNPT, ac mae'n gwneud cynnydd tuag at gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru;
- yn ddiweddar, trosglwyddodd y gwaith o reoli ei gartrefi gofal preswyl i Grŵp Gwalia o dan gontract 25 mlynedd sy'n cynnwys adnewyddu pedwar cartref; a
- rhaglen barhaus o Adolygiadau Systemau Darbodus.

93 Fel rhan allweddol o'r rhaglen drawsnewid, mae'r Cyngor wedi croesawu'r cysyniad o gydweithio ar sail ranbarthol drwy gyfrwng Bae'r Gorllewin a threfniadau lleol gyda chynghorau cyfagos.

94 Mae'r Cyngor yn asesu ei drefniadau partneriaeth fel rhai cadarn, ond ni ddarparodd ddigon o dystiolaeth yn ei Adroddiad o'r canlyniadau a gyflawnwyd i gefnogi'r asesiad hwn. Mae Adran 5 yr Adroddiad Perfformiad yn crynhoi prif fentrau cydweithredol y Cyngor a'r ardal, ond nid yw'n egluro a yw'r canlyniadau a fwriadwyd wedi'u cyflawni ac i ba raddau y byddant yn cyfrannu tuag at flaenoriaethau'r Cyngor.

95 Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn nodi gofynion penodol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae gofyn iddynt ddatblygu a chyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Cydraddoldeb Strategol (y Cynllun) erbyn 2 Ebrill 2012. Mae'r gofyniad i gynhyrchu amcanion cydraddoldeb yn cyd-fynd i raddau helaeth â'r elfen 'tegwch' sy'n rhaid i awdurdodau ei hystyried wrth bennu amcanion gwella o dan y Mesur. Mae'r holl wybodaeth sy'n codi o weithgareddau ymgysylltu mewnol ac allanol wedi'i choladu, ei hystyried a'i threfnu'n amcanion a phrosiectau fel y'u nodwyd yn y Cynllun. Hefyd, sefydlodd y Pwyllgor Craffu Polisïau ac Adnoddau grŵp gorchwyl a gorffen i gynorthwyo gyda'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun.

96 Gwelodd ein hadolygiad o amcanion gwella'r Cyngor fod y sylfaen dystiolaeth a nodwyd yng Nghynllun Gwella Corfforaethol 2012-13 yn cynnwys gwybodaeth am gydraddoldeb. Fodd bynnag, ni aethpwyd ati'n benodol i amlygu'r cysylltiadau rhwng yr amcanion cydraddoldeb perthnasol yng *Nghynllun Cydraddoldeb Strategol* y Cyngor a phob amcan gwella.

## Mae'r Cyngor yn parhau i reoli ei heriau ariannol yn effeithiol, ond mae cynghorwyr yn wynebu penderfyniadau anodd wrth fynd i'r afael â'r bwlch ariannol a ragwelir dros y pedair blynedd nesaf

97 Llynedd, adroddwyd gennym fod y Cyngor wedi methu â chynhyrchu'r datganiad o gyfrifon o fewn y terfyn amser statudol. Yn 2011-12, gwnaed cynnydd sylweddol yn y broses o baratoi cyfrifon a olygodd fod y Cyngor wedi cyflawni'r gwaith erbyn y terfyn amser statudol ac roedd angen gwneud llai o newidiadau archwilio i'r cyfrifon.

98 Mae'r Cyngor yn cydnabod yr heriau ariannol sy'n ei wynebu yn sgil y cwtogi a ragwelir ar gyllid gan y Llywodraeth ar gyfer gwariant refeniw a gwariant cyfalaf a chynnydd yn y galw am rai gwasanaethau. Mae wedi cydnabod hefyd ei bod hi'n hanfodol blaenoriaethu'r hyn a wna yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol yn ogystal ag yn y tymor canolig.

99 Ym mlwyddyn ariannol 2012-13, rhagwelir y bydd y Cyngor yn mantoli'r gyllideb; cyflawnwyd hyn yn rhannol drwy ddefnydd wedi'i gynllunio o'r cronfeydd. Roedd angen swm sylweddol o gyllid ychwanegol ym maes gwasanaethau plant i fynd i'r afael â phroblemau yn y gwasanaeth hwnnw.

100 Mae Blaengynllun Ariannol ar waith sy'n nodi arbedion gwerth £21 miliwn dros y pedair blynedd nesaf hyd at 2017-18. Gwneir yr arbedion hyn drwy gymysgedd o adolygiadau system o wasanaethau'r Cyngor, newid telerau ac amodau gweithwyr cyflogedig a gwneud newidiadau sylfaenol mwy hirdymor i'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu a darparu ei wasanaethau. Mae'r Cyngor wedi pennu cyllideb fantoledig ar gyfer 2013-14, gan fynd i'r afael â chyllid llenwi bwlch rhagamcanol o dros £4 miliwn.

101 Mae'r Cyngor yn edrych am becyn teg o fesurau o'i strategaeth ariannol ddiwygiedig ar gyfer y tymor canolig sy'n adlewyrchu'r angen am ddosbarthiad cytbwys o offerynnau ariannol, gan gynnwys:

- toriadau yn y gwasanaethau;
- adolygu telerau ac amodau staff; ac
- adolygu ffioedd a thaliadau yn cynnwys y dreth gyngor i'w chodi ar y dinesydd.

102 Mae'r gwaith o ymgynghori ac ymgysylltu ag undebau llafur a rhanddeiliaid eraill yn mynd rhagddo, a bwriedir cynnal trafodaeth ehangach â phartneriaid hefyd. Prif agwedd y newid fydd symleiddio'r rhaglen drawsnewid yn bum maes, gan gynnwys llai o weithgareddau ag iddynt fwy o ffocws, fel a ganlyn:

- *Rhaglen Strategol Gwella Gwasanaethau Plant*
- *Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion (TASC)*
- *Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion*
- *Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesedd*
- Swyddi a seilwaith

103 Wrth ddiwygio'r rhaglen, rhoddir ystyriaeth i'r goblygiadau i bobl ac o ran adnoddau ariannol a nodwyd ar gam cynnar i gefnogi'r gwaith o gyflawni newid mawr ac ôl-effeithiau newid o'r fath.

**Tra'i fod yng nghanol cyfnod o newid sylweddol, mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd cymysg wrth fynd i'r afael â'n cynigion blaenorol ac mae wedi gorfod blaenoriaethu gweithgarwch yng nghyd-destun llai o adnoddau ariannol ac adnoddau dynol**

104 Dros y chwe mis diwethaf, mae Tîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor wedi bod trwy gyfnod o newid sylweddol. Penodwyd Swyddog Adran 151 newydd yn dilyn ymddeoliad ym mis Rhagfyr 2012, a phenodwyd unigolyn allanol i'r swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai ym mis Ebrill 2013. Mae'r Cyngor wedi recriwtio Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes newydd yn ddiweddar hefyd.

105 Bu'r Cyngor yn araf i ymateb i'n hargymhelliad ar gyfer gwella sy'n nodi y dylid cyflwyno system gorfforaethol wedi'i chymhwyso'n gyson ar gyfer arfarnu perfformiad staff, er ei fod wedi gorfod blaenoriaethu gweithgareddau adnoddau dynol eraill.

106 Yn ystod 2011-12 a 2012-13, roedd y Cyngor yn datblygu system arfarnu perfformiad newydd. Cafodd y system ei threialu mewn gwasanaeth meddwl drwy systemau a gwasanaeth fel arall er mwyn datblygu dull o weithredu sy'n addas ar gyfer y ddau fath o amgylchedd. Yn dilyn cwblhau'r cynlluniau peilot, ac ar sail canlyniad yr adolygiad parhaus o fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor, rhagwelwyd y byddai'r dull hwn yn cael ei gyflwyno fesul cam ar draws y Cyngor.

107 Nid yw'r Cyngor wedi gwneud unrhyw gynnydd pellach yn y maes hwn. Yn hytrach, mae wedi adleoli ei adnoddau er mwyn edrych ar ddatblygu strategaeth i leihau costau'r gweithlu. Ymateb uniongyrchol yw hyn i'r Blaengynllun Ariannol a'r angen i ddod o hyd i £21 miliwn o arbedion dros bedair blynedd, sydd wedi cael blaenoriaeth dros rai o'r blaenoriaethau a oedd yn bodoli'n barod.

108 Ailgyfeiriwyd y gwasanaeth adnoddau dynol er mwyn rheoli'r gwaith o gyflawni'r strategaeth hon ac mae'r gwasanaeth wedi goruchwylio newid sefydliadol sylweddol fel a ganlyn:

- cael gwared ar 170 o swyddi sydd wedi sicrhau arbedion ariannol;
- datblygu strategaeth lleihau bil cyflogau sy'n cynnwys bwndel o argymhellion ynglŷn â strwythur cyflog a graddfeydd newydd i atal codiadau cyflog yn y dyfodol;
- strategaeth pobl newydd a gymeradwywyd ym mis Tachwedd 2012 i reoli ochr staffio'r Blaengynllun Ariannol gan gydnabod yr angen i resymoli strwythur y gwasanaeth adnoddau dynol er mwyn rheoli a chefnogi newid;
- strategaeth datblygu sefydliadol newydd i helpu i nodi sut y mae angen i'r sefydliad addasu ac arloesi er mwyn mynd i'r afael â heriau parhaus a rhai sy'n dod i'r amlwg; a
- goblygiadau'r rhaglen drawsnewid o ran rheoli adnoddau, er enghraifft:
  - trosglwyddo'r stoc tai yn 2011;
  - trosglwyddo rheolaeth gofal preswyl i Grŵp Gwalia yn 2012; a
  - darpariaeth ranbarthol ar gyfer gwella ysgolion.

109 Mae'r Cyngor yn bwriadu datblygu ei fframwaith arfarnu perfformiad a rheoli perfformiad gyda'i gilydd fel rhan o'r un fframwaith. Bydd yr ymarfer hwn yn pennu pa lefel o arfarnu perfformiad sy'n briodol i reolwyr, gyda'r pwyslais mwyaf ar reoli absenoldeb salwch a phatrymau ymddygiad addas ar gyfer amgylchedd dynamig. Trefnwyd i'r prosiect newid sylweddol hwn gychwyn yn 2013-14. Byddwn yn parhau i fonitro datblygiad y swyddogaeth adnoddau dynol dros y flwyddyn sy'n dod.

110 Adolygodd y Cyngor ei saith amcan gwella yr un pryd ag adolygiad gan yr uwch reolwyr o Flaengynllun Ariannol y Cyngor er mwyn sicrhau bod yr amcanion yn fforddiadwy. Mae ganddo'r un nifer o amcanion a chan ddefnyddio egwyddorion atebolrwydd yn seiliedig ar ganlyniadau, mae'n bwriadu cysylltu'r rhain â'r pum canlyniad poblogaeth. Gwneir hyn mewn ymateb i'n hargymhelliad ar gyfer gwella sy'n nodi y dylid adolygu amcanion gwella presennol fel eu bod yn fforddiadwy, yn cyd-fynd â blaenoriaethau a bennwyd mewn cyllidebau blynyddol, ac yn eglur i ddinasyddion. Hefyd, rydym wedi gwneud sylwadau ynglŷn â'r Cyngor yn ymestyn ei adnoddau'n rhy denau mewn rhai meysydd.

111 Hefyd, gwnaeth y Cyngor waith helaeth fel rhan o waith monitro'r cytundeb canlyniadau i greu llinellau sylfaen a dulliau o fesur i alluogi'r Cyngor i ddangos y canlyniadau i ddinasyddion. Bydd cynllun corfforaethol 2013-14 yn cynnwys manylion ynglŷn â sut y bydd cynnydd yn cael ei fesur a'i adrodd.

## Mae'r Cyngor yn ymdrin â'r materion ym maes gwasanaethau plant a arweiniodd at y protocol pryderon difrifol yn cael ei roi ar waith gan AGGCC

112 Mewn ymateb i arolwg AGGCC o wasanaethau plant ym mis Tachwedd 2012, sefydlodd y Cyngor *Raglen Gwella Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc* o dan arweiniad bwrdd gweithredu. Y Prif Weithredwr yw Uwch-swyddog Cyfrifol y bwrdd sy'n cynnwys cyfuniad o 'uwch ddefnyddwyr' ac 'uwch gyflenwyr'.

113 Mae'r Cyngor wedi penderfynu bod adroddiad arolygu diweddar AGGCC ar y gwasanaethau plant yn rhoi cyfle i wneud cais i Gronfa Datblygu Gwaith Craffu Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella gwaith craffu ar wasanaethau cymdeithasol. Mae datganiad cychwynnol o ddiddordeb wedi'i dderbyn.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r Adroddiad Perfformiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff yr asesiad gwella ei lywio gan asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn crynhoi casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ar hunanasesiad yr awdurdod o'i berfformiad.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Mae'r *Adroddiad Gwella Blynyddol* hwn yn crynhoi adroddiadau archwilio ac asesu gan gynnwys unrhyw arolygiadau arbennig (o dan adran 24).

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Gastell-nedd Port Talbot a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

## Y Cyngor

Mae'r Cyngor yn gwario tua £347.6 miliwn y flwyddyn (2012-13). Mae hyn yn cyfateb i tua £2,485 fesul trigolyn. Yn yr un flwyddyn, gwariodd y Cyngor £76.1 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd.

Yn 2011-12, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D ar gyfer Castell-nedd Port Talbot oedd £1,383.71 y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu 2.35 y cant i £1,416.23 y flwyddyn ar gyfer 2012-13. Mae 90.6 y cant o dai Castell-nedd Port Talbot yn perthyn i fandiau treth gyngor A i D.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 65 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd a wneir o adnoddau. Mae aelodaeth wleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 52 Llafur
- 8 Plaid Cymru
- 3 Annibynnol
- 1 Democrat Rhyddfrydol
- 1 UKIP

Prif Weithredwr y Cyngor yw Steven Phillips. Mae'n cael ei gefnogi gan y Tîm Rheoli Corfforaethol canlynol:

- Yr Amgylchedd: John Flower
- Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol: Hywel Jenkins (penodwyd yn Rhagfyr 2012)
- Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai: Nick Jarman (Cyfarwyddwr dros dro yn dechrau ym mis Ebrill 2013)
- Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes: Karl Napieralla

## Gwybodaeth arall

Aelodau'r Cynulliad dros Gastell-nedd Port Talbot yw:

- Gwenda Thomas, Castell-nedd, y Blaid Lafur
- David Rees, Aberafan, y Blaid Lafur
- Suzy Davies, Gorllewin De Cymru, y Blaid Geidwadol
- Byron Davies, Gorllewin De Cymru, y Blaid Geidwadol
- Peter Black, Gorllewin De Cymru, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
- Bethan Jenkins, Gorllewin De Cymru, Plaid Cymru

Yr Aelodau Seneddol dros Gastell-nedd Port Talbot yw:

- Dr Hywel Francis, Aberafan, y Blaid Lafur
- Peter Hain, Castell-nedd, y Blaid Lafur

Am ragor o wybodaeth gweler gwefan y Cyngor ei hun yn www.npt.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn:
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot, SA13 1PJ,
Ffôn: 01639 686868 e-bost: contactus@npt.gov.uk.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig

Cynghorydd A L Thomas
Arweinydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Y Ganolfan Ddinesig
Port Talbot
SA13 1PQ

Annwyl Gynghorydd Thomas

## Llythyr Archwilio Blynyddol

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r prif negeseuon sy'n codi o fy nghyfrifoldebau statudol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm dyletswyddau adrodd yn unol â'r Cod Ymarfer Archwilio.

## Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau mewn perthynas â pharatoi cyfrifon a'i ddefnydd o adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheoli mewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion ac i sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cyfrifon cywir;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol; a
- sefydlu trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau, a chadw golwg ar y trefniadau hynny.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- ddarparu barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- chyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau o gyfrifon yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Seiliwyd y Cod ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 28 Medi 2012, cyhoeddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau o gyfrifon yn cadarnhau eu bod yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Cyflwynwyd y prif faterion sy'n codi o'r archwiliad o'r

cyfrifon i aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ar 27 Medi 2012, a bydd adroddiad manylach yn dilyn maes o law.

Roedd gan y Cyngor fesurau rheoli mewnol priodol ar waith i gefnogi'r gwaith o lunio adroddiadau ariannol a phroses well ar gyfer cau i lawr a alluogodd yr Archwilydd Penodedig i gyhoeddi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Cyngor o fewn y terfynau amser statudol; ni nodwyd unrhyw wendidau sylfaenol ond ceir rhai meysydd lle mae angen gwelliant pellach:

- nid ydym wedi nodi unrhyw wendidau sylweddol ym mesurau rheoli perthnasol y Cyngor ond mae lle i'w cryfhau;
- mae'r Archwiliadau Mewnol yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol CIPFA ond amlygwyd rhai meysydd ar gyfer gwelliant pellach ac mae'r Cyngor yn y broses o fynd i'r afael â'r rhain;
- mae mesurau rheoli ariannol lefel uchel yn creu sylfaen ddibynadwy ar gyfer paratoi datganiadau ariannol y Cyngor ond gallai weithredu'n fwy effeithiol drwy gysoni cyfrifon rheoli yn rheolaidd a mwy o dryloywder wrth adrodd ar gyllidebau; a
- gwnaed cynnydd sylweddol yn y broses o baratoi cyfrifon ond nodwyd bod lle ar gyfer gwelliant pellach yn enwedig mewn perthynas â llunio'r cyfrif incwm a gwariant cynhwysfawr a phrosesau terfynu cyfalaf.

Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gyda swyddogion ar ddatblygu cynllun gweithredu i symud y materion hyn yn eu blaen. Bydd y Pwyllgor Archwilio yn cyfrannu'n allweddol at y gwaith o yrru'r agenda yn ei blaen a sicrhau bod digon o gynnydd yn cael ei wneud ar y prosesau adrodd ariannol ar gyfer 2012-13.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon, ac mae'n pwyso hefyd ar waith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. At ei gilydd, rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith, ond mae rheoleiddwyr eraill yn dal i gwblhau eu gwaith. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at feysydd lle mae effeithiolrwydd y trefniadau hyn eto i'w ddangos, neu lle gellid gwneud gwelliannau, pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 28 Medi 2012.

Bydd y ffi am archwiliad ariannol ar gyfer 2011-12 yn uwch na'r ffi a gytunwyd yn yr Amlinelliad Archwilio Blynyddol o ganlyniad i'r amser ychwanegol oedd ei angen i wirio rhai o'r balansau yn y datganiad o gyfrifon.

Yr eiddoch yn gywir

Richard Harries
Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig

26 Tachwedd 2012

**Anthony Barrett**
**Archwilydd Penodedig**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

**28 Medi 2012**

Mae gan etholwyr lleol ac eraill yr hawl i edrych ar gyfrifon y Cyngor. Pan fydd y Cyngor wedi cwblhau ei gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, fel rheol tua mis Mehefin neu fis Gorffennaf, mae'n rhaid iddo hysbysebu eu bod ar gael i bobl edrych arnynt. Gallwch gael copïau o'r cyfrifon gan y Cyngor; gallwch hefyd weld pob llyfr, gweithred, contract, bil, taleb a derbynneb sy'n ymwneud â hwy am 20 diwrnod gwaith ar ôl iddynt gael eu darparu. Gallwch ofyn cwestiynau i'r archwilydd am y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn y mae'n ei harchwilio. Er enghraifft, gallwch roi gwybod i'r archwilydd os ydych o'r farn bod rhywbeth o'i le ar y cyfrifon neu am wastraff neu aneffeithlonrwydd o ran y ffordd y mae'r Cyngor yn cynnal ei wasanaethau. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar daflen Swyddfa Archwilio Cymru, *Cyfrifon y Cyngor: eich hawliau*, ar ein gwefan yn www.wao.gov.uk neu ysgrifennwch atom yn y cyfeiriad ar gefn yr adroddiad hwn.

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

## Amcanion gwella'r Cyngor

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ar gyfer 2012-2015 yn ei Gynllun Corfforaethol 2012-2015, *Cyflawni'r Hyn sy'n Bwysig*, sydd i'w weld ar wefan y Cyngor yn www.npt.gov.uk. Mae'r amcanion gwella fel a ganlyn:

## Amcanion gwella Castell-nedd Port Talbot ar gyfer 2010-2013 a 2012-2015

| Prif themâu a gefnogir gan amcanion gwella 2010-2013 | Blaenoriaethau ar gyfer gwelliant 2012-2015 |
|---|---|
| Gwella tai:<br>• Gwella safon y tai i'n tenantiaid fyw ynddynt drwy drosglwyddo perchnogaeth y tai cyngor presennol ac asedau cysylltiedig i Cartrefi CNPT. | Mynediad i gyflogaeth a thrafnidiaeth. |
| Gwella gwasanaethau i bobl hŷn ac oedolion diamddiffyn:<br>• gwella'r preifatrwydd a'r urddas a roddir i bobl hŷn sy'n byw yng nghartrefi gofal preswyl y Cyngor;<br>• atal mwy o bobl rhag gorfod cael eu derbyn i'r ysbyty pan ellir gofalu amdanynt yn y gymuned ac roeddem am sicrhau y gall mwy o bobl ddychwelyd adref o'r ysbyty pan fyddant yn barod i gael eu rhyddhau; a<br>• roeddem am i oedolion sy'n agored i niwed fwynhau ansawdd bywyd da a chael cymorth i fyw mor annibynnol â phosibl. | Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y cychwyn gorau posibl mewn bywyd. |
| Gwella addysg:<br>• sicrhau bod ein hysgolion yn addas at y diben a'u bod yn gallu cynnig profiadau addysgol o ansawdd uchel ar gyfer pob disgybl gan wella gwasanaethau ar gyfer plant agored i niwed a'u teuluoedd; a<br>• rhoi cefnogaeth i bobl ifanc sydd mewn perygl, ac i leihau niferoedd y bobl ifanc yn Ne-orllewin Cymru sy'n NEET (heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant), mewn perygl o fod felly neu sy'n methu cyrraedd eu potensial llawn. | Gwella perfformiad addysgol. |

| Key themes supported by improvement objectives 2010-2013 | Priorities for improvement 2012-2015 |
|---|---|
| Gwella gwasanaethau ar gyfer plant agored i niwed a'u teuluoedd:<br>• Gwella'r ffordd rydym yn ymyrryd ym mywydau plant sy'n agored i niwed a'u teuluoedd. | Helpu pobl hŷn ac oedolion sy'n agored i niwed. |
| Gwella gwasanaethau'r cyngor:<br>• Sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn haws i'w defnyddio, yn fwy effeithlon ac o ansawdd uwch. | Gwella'r amgylchedd lleol. |
| Gwella ac adfywio'r amgylchedd:<br>• Gwella'r trefniadau sydd ar waith gan y Cyngor i gasglu gwastraff, cynyddu ailgylchu a lleihau tirlenwi.<br>• Cyfleusterau cymunedol pwysig - adeiladu dau gyfleuster hamdden a diwylliannol allweddol yn lle'r rhai a ddinistriwyd mewn tân. Roeddem hefyd eisiau mesur a oeddem wedi cyflawni disgwyliadau'r cyhoedd yn dilyn gwelliannau i Erddi Fictoria a ddefnyddir yn helaeth yng Nghastell-nedd ac roeddem eisiau gwneud cynnydd gydag adfywio canol ein trefi. | Adfywio canol ein trefi a'n cymunedau lleol. |
| Mae economi gadarn a ffyniannus yn helpu i leihau tlodi:<br>• Helpu pobl sydd eisiau dod o hyd i waith a chefnogi busnesau newydd a busnesau sy'n bodoli'n barod i'w helpu i ffynnu. | Gwella iechyd a lles pobl Castell-nedd Port Talbot. |
| | Cydweithio: gweithio gyda phartneriaid lleol ac awdurdodau lleol cyfagos i nodi cyfleoedd ymarferol a chyraeddadwy i wella darpariaeth gwasanaethau a/neu sicrhau arbedion effeithlonrwydd drwy gydweithio. |
| | Rheoli ariannol a rheoli gwasanaethau. |
| | Ymgysylltu'n effeithiol gyda'n cymunedau |

## Hunanasesiad y Cyngor o berfformiad

Mae hunanasesiad y Cyngor o berfformiad yn ystod 2011-12, Adroddiad Blynyddol 2011-12, *Cyflawni'r Hyn sy'n Bwysig*, i'w weld yn www.npt.gov.uk/default.aspx?page=9216&lang=cy-gb.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk